Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher 22ain 2006 am 7.30 p.m.

Presennol: Maer Cyng Colin Jenkins
Cyng Charlotte Leadbeater
Cyng Ros Bellamy
Cyng Roy Davies
Cyng Ieuan Gwyn
Dirprwy Faer Hugh Towns
Cyng Richard Wallace
Cyng Pam Steane Price
Cyng Fran Murphy
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Yn Bresennol : Cynghorydd Sir Ieuan Jones

Ymddiheuriadau: Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Materion yr Heddlu : Cafwyd adroddiad ar y mis blaenorol gan y Rhingyll Neil Jones. Mae ymholiadau yn cael eu gwneud mewn perthynas â'r achos o dorri mewn a dwyn yn CK's. Gwnaed archwiliadau llwyddiannus iawn ar gerbydau ac o ganlyniad i hyn arestiwyd unigolyn y tu allan i'r ardal. PC Vernon Thomas fydd y Swyddog Cymunedol swyddogol o dan y strategaeth Plismona Cymunedol a bydd yn dechrau ar ei waith ar yr 2il o Ebrill. Codwyd rhai materion mewn perthynas â fandaleiddio gan yr aelodau ac addawodd Rhingyll Jones ymchwilio i'r rheini.

6734 / Mawrth / 06 Cofnodion Blaenorol

Cymeradwywyd ac arwyddwyd y cofnodion o'r cyfarfod llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Heol Cilgant ar ddydd Mercher, 22ain Chwefror, fel rhai cywir gan gynnwys y diwygiad canlynol :-

Cof. 6722 / Chwefror / 06 newid 'penderfynwyd' i'r gair 'awgrymwyd'. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Pawb o blaid.

Darllenwyd a chymeradwywyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 8fed Mawrth 2006 fel rhai cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Fran Murphy ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Darllenwyd Cofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 8fed Mawrth 2006 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

6735 / Mawrth / 06 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ei fod wedi gofyn i Mr Peter Morgan (CSC) i gael caniatâd gan dirfeddianwyr lleol er mwyn cael mynediad i archwilio'r wal sy'n ffinio â'r ardd Gymunedol.
Dywedodd y Cyng Jones fod yna le gwag gyda'r AALl fel Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Llandeilo.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Yn dilyn hyn cafwyd trafodaeth ar y cynnydd diweddar ym mhrisiau'r maes parcio. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price i ofyn i'r Clerc ysgrifennu at Glercod Cynghorau Llanymddyfri a Rhydaman yn cynnig cefnogaeth y Cyngor i gychwyn protest yn erbyn y taliadau. Roedd pawb o blaid.
Dosbarthwyd taflenni "Cittaslow " o Ludlow gan y Cyng C. Jones yn amlinellu manteision y fenter Slow Cooking.

6736/ Mawrth / 06 Materion yn codi o gyfarfodydd Blaenorol

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Ros Bellamy ar y cyfarfod a gafwyd gyda'r Cyng Pam Steane Price mewn perthynas â diweddaru Gwefan y Cyngor.
Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies y dylai unrhyw ddiweddaru i'r Wefan, gan gynnwys unrhyw ffotograffau, eu hanfon at y Clerc erbyn y penwythnos cyn cyfarfod o'r Cyngor Llawn er mwyn i'r Clerc anfon unrhyw waith cyfieithu ymlaen at Dewis. Fe fyddai hyn yn caniatáu saith niwrnod i'w gynnwys ar y Wefan.

6737 / Mawrth / 06 Materion Ariannol.

1. Anfonebau i'w Talu.

BT (rent y llinell ffôn)	£ 51.97
VIKING DIRECT (Deunydd Swyddfa)	£ 163.63
Orchardweb (Diweddaru misol)	£ 35.00

Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
2. Siec heb ei thalu i mewn. Dywedodd y Swyddog Cyllid fod y rhodd i Ford Gron Llandeilo heb ei chyflwyno. Addawodd y Maer y byddai'n cael golwg ar y mater.

6738 / Mawrth / 06 Adroddiad y Maer

Cafwyd adroddiad gan y Maer Cyng Colin Jenkins o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau yn mae wedi eu mynychu ar ran y cyngor yn ystod y mis.

6739 / Mawrth / 06 Treftadaeth – Prosiect Llwybr y Dref

Cyflwynodd y Cyng Ros Bellamy adroddiad ysgrifenedig ar ran y gweithgor. Mae'r cais cyntaf am arian grant o Gronfa 1 wedi'i wneud. Mae'r paneli wedi'u hanfon i'w cyfieithu ac mae'r placiau wedi'u harchebu. Mae ail ddrafft y daflen arfaethedig wedi'i llunio.
Gofynnodd y Cyng Bellamy am ganiatâd y Cyngor i beidio â gosod tri o arwyddion cyfeirio ar gyfer prosiect y Llwybr oherwydd anawsterau cynllunio a'r gost o'u cynhyrchu. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid rhoi caniatâd ac eiliwyd hyn gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

6740 / Mawrth / 06 Prosiect yr Ardd

Rhoddodd y Cyng Pam Steane Price adroddiad ysgrifenedig o'r gwaith sydd wedi'i wneud gan gyflwyno ffotograffau i'w cynnwys ar Wefan y Dref.

6741 / Mawrth / 06 Adroddiad ar Neuadd y Sir

Cyflwynodd y Cyng Ieuan Gwyn adroddiad ysgrifenedig ar y prosiect. Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r adeilad. Gan fod hyn yn fater brys, mae'r Maer wedi rhoi ei gymeradwyaeth i'r ffi o £120 gael ei dalu. Mae ffi'r Pensaer ar gyfer y gwaith o gynllunio yn £ 2545.37. Dosbarthwyd rhestr o gontractwyr cymwys fydd yn derbyn manylion o'r gwaith i'w dendro amdano. Mae angen siec am £174.64 er mwyn cyflwyno cais i CSC er mwyn cymeradwyo rheoliadau adeiladu. Cynigiodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid derbyn hyn. Eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

6742 / Mawrth / 06 Arddangosfa Tân Gwyllt

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Hugh Towns ar gyfarfod diweddaraf y gweithgor. Codwyd dau fater.

1) Y dylai'r Cyngor ofyn i argraffydd lleol gynhyrchu'r rhaglen.
2) Y dylid rhoi ystyriaeth ofalus wrth ddewis cwmni i brynu'r tân gwyllt oddi wrtho, gan fod yn rhaid rhoi'r costau yn erbyn y gwahanol hyfforddiant a gynigir gan wahanol gwmnïau. Trefnir cyfarfodydd misol.

Mae'r datganiad o gyfrifon gan y Swyddog Cyllid yn dangos colled o £207.66, ond bydd hwn yn cael ei droi'r elw bach pan fydd y TAW ar gost y tân gwyllt yn cael ei adennill.

6743 / Mawrth / 06 Adroddiad y Gweithgor Gweithdrefnau

Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Hugh Towns gan y gweithgor sydd wedi'i sefydlu i adolygu'r gwahanol weithdrefnau a weithredir gan y Cyngor. Bydd angen adolygu'r Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol, ac mae'r Rheolau Mewnol i'w rhoi yn y rheoliadau Ariannol.

6744 / Mawrth / 06 Adroddiad y Swyddog Cyllid

Mae cyflwr y Bont Siglo yn parhau i achosi pryder i aelodau. Mae'r Cyngor wedi derbyn sicrhad fod CSC yn gwneud 'gwaith cynnal a chadw parhaol'.
Adroddodd y Swyddog Technegol bod angen cytundeb gwasanaeth ar boiler Neuadd y Sir. Mae wedi trefnu cyfarfod gyda Mr Roger Davies o Lorne Stewart Ltd mewn perthynas â'r gwasanaeth y gallent ei gynnig. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid rhoi'r gallu i'r Swyddog Technegol awdurdodi gwaith i uchafswm o £500 yn y cyfamser. Pe bai'r gost yn fwy na hynny, yna bydd y mater yn dod yn ôl i gyfarfod Cyllid Ebrill. Eiliwyd hyn gan y Cyng Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

6745 / Mawrth / 06 Enwebu Maer ar gyfer y Flwyddyn 2006-7

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cynigiwyd y Dirprwy Faer presennol, Cyng Hugh Towns fel y Maer ar gyfer y Flwyddyn 2006-7, gan y Cyng Ros Bellamy. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Pam Steane Price. Roedd pawb o blaid.

6746 / Mawrth / 06 Enwebu Dirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn 2006-7

Cynigiwyd y Cyng Richard Wallace fel y Dirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn 2006-7 gan y Cyng Ieuan Gwyn. Eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.

6747 / Mawrth / 06 – Gohebiaeth

1. Adnewyddu aelodaeth Calon Cymru sef ffi o £8.00. Pawb o blaid.
2. Un Llais Cymru – yn cadarnhau fod yr enwebiad i fynychu'r Arddwest Frenhinol wedi bod yn aflwyddiannus.
3. Cofnodion o gyfarfod Cronfa Fawr y Loteri a gynhaliwyd yn Nhre-gib – nodwyd.
4. Rhaglen Cynnal a Chadw Teithiau Cerdded yn Sir Gaerfyrddin – rhoddwyd i'r Swyddog Technegol.
5. Cyfyngiadau traffig dros dro LlCC – nodwyd.
6. Ymgyrch Glanhau Sir Gaerfyrddin – rhoddwyd i'r Cyng Pam Steane Price.
7. Cyng Pam Steane Price – ad-dalu costau teithio - £28.58. Cynigiwyd gan y Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace.
8. Partneriaeth Davies Richards (ffôn) – byddant yn cwrdd â Chynghorwyr yn ddiweddarach fel rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig – nodwyd.
9. Adroddiad rheoliadau Swyddfa'r Rheilffordd – nodwyd.
10. Rhybudd o Ddeintyddfa GIG newydd i agor yn Llandeilo, gyda dau ddeintydd llawn amser – nodwyd.

6748 / Mawrth / 06 – Unrhyw Fater arall sydd ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

1. Cais am gyfyngiadau aros – cytunwyd i aros am ymatebion pellach.

2. Cais Cynllunio. Wnaeth y Cyng Hugh Towns adael yr ystafell tra bod yr eitem hon yn cael ei thrafod. E/12579 Cael gwared â tho un codiad yn y cefn, er mwyn adeiladu to ar oleddf a chyswllt newydd er mwyn creu cyfleuster archif a mân newidiadau mewnol yn Neuadd y Sir.
   Sylwadau :- Argymell cymeradwyo. Mae Ymddiriedolaeth Cambria yn cynnig nifer o swyddi diogel yn y Dref, a bydd y cyfleuster hwn yn gwella eu gwaith. Roedd pawb o blaid.

   Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 p.m.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk